


Adroddiad ar gyfer	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad	16 Medi 2019
Swyddog Arweiniol	Trysorydd
Swyddog Cyswllt	Ken Finch (01745 535286)
Pwnc	Dyfarniad Cyflog y Prif Swyddogion 2019



PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Gofynnir i'r Aelodau nodi a gweithredu'r cytundebau ar gyfer y dyfarniad cyflog i Brif Swyddogion yn 2019. Daethpwyd i'r cytundebau hyn gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Rheolwyr Brigâd mewn Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol mewn perthynas â'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, a gan y Cyd-Bwyllgor Negodi (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol ar gyfer y Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r cyrff negodi wedi dod i'r cytundebau canlynol ar gyfer 2019:

- i. Mae'r NJC wedi cytuno i gynnydd o 2%, sy'n gymwys o 1 Ionawr 2019 ymlaen. Mae'r cytundeb hwn yn berthnasol i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol.
- ii. Yn ystod mis Gorffennaf 2018, cadarnhaodd y JNC ddull dwy flynedd ar gyfer y cyfnodau a oedd yn dechrau ar 1 Ebrill 2018 ac 1 Ebrill 2019. Roedd hyn yn cynnwys dyfarniad o 2% o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Mae'r cytundeb hwn yn berthnasol i'r Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd.

ARGYMHELLIAD

3 Bod yr aelodau'n cefnogi'r penderfyniadau fel y nodir uchod.

SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

CEFNDIR

- 5 Prif swyddogaeth yr NJC a'r JNC yw dod i gytundeb ar fframweithiau cenedlaethol ar gyfer cyflog ac amodau Rheolwyr Brigâd a Phrif Swyddogion yn y Deyrunas Unedig. Yn GTAGC, mae'r term Prif Swyddog yn cyfeirio at swydd y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, y Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd. Mae'r swydd Dirprwy Brif Swyddog Tân yn wag ar hyn o bryd.
- 6 Yn dilyn dyfodiad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, diweddarwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014. Er mai ar gyfer awdurdodau lleol y mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau, mae rhai ohonynt yn berthnasol i awdurdodau Tân ac achub.
- 7 Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud darpariaeth am dalu prif swyddogion. Pwrpas hyn yw sicrhau bod rhaid i unrhyw benderfyniad ynglŷn â thalu prif swyddogion (neu rai i'w penodi'n brif swyddogion) gael eu gwneud gan yr awdurdod llawn, heb y posibilrwydd o'i ddirprwyo i bwyllgor o'r awdurdod.

GWYBODAETH

- 8 Mae Atodiad 1 yn nodi'r cytundebau sy'n cynnwys y cyfraddau blynnyddol isaf o gyflog ar gyfer prif swyddogion Tân.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ddim yn berthnasol.
Cyllideb	Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y gyllideb ar gyfer y swyddi sy'n destun y dyfarniad cyflog cenedlaethol hwn.
Cyfreithiol	Mae'r argymhellion yn gyson â thelerau ac amodau'r contractau unigol.
Staffio	Mae'r argymhellion yn sicrhau cysondeb gyda'r Polisi Tâl a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Mawrth 2019.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Nid oes goblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad.
Risgiau	Nid oes risgiau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad.

Derbyniwyd hwn yn Saesneg yn unig

Atodiad 1

Employers' Secretary, Simon Pannell Local Government House, Smith Square London,
SW1P 3HZ Telephone 020 7664 3188 e-mail: firequeries@local.gov.uk

Staff Side Secretary, Andy Hopkinson 9 -11 Pebble Close Amington Tamworth
Staffordshire B77 4RD Telephone 01827 302300

**NATIONAL JOINT COUNCIL FOR BRIGADE MANAGERS OF LOCAL AUTHORITY
FIRE AND RESCUE SERVICES**

To: Chairs of Fire Authorities, Chief Fire Officers, Clerks to Fire Authorities, Directors of Human Resources, Members of the National Joint Council

30th July 2019

Dear Sir/Madam

Pay Award 2019

1. We write to inform you that the NJC has agreed an increase of 2.0% on basic salary levels with effect from 1st January 2019.
2. The pay of all brigade managers covered by the NJC's agreement should therefore be increased and backdated accordingly
3. Revised minimum annual rates of pay for chief fire officers for 1st January 2019 are attached.
4. In each case the minimum salary arrangements for new appointments in population bands 1 and 2 remain as defined in the 2006/2007 pay settlement (issued by circular on 7 December 2006), and will be subject to review in due course.
5. The Staff Side has also made a suggestion to 'explore establishing a small working group to discuss the potential impact and implications the ongoing 'Broadening the Role' negotiations may have on Brigade Managers in the future'. You will be aware that negotiation is currently paused. The Employers' Side has therefore indicated it is content to consider such a suggestion once the position going forward is clear.

Yours faithfully,

SIMON PANNELL

ANDREW HOPKINSON

Derbyniwyd hwn yn Saesneg yn unig

Joint Negotiating Committee for Chief Officers of Local Authorities

**To: Chief Executives in England and Wales (N Ireland for information)
(copies for the Finance Director and HR Director)**

Regional Directors

Members of the Joint Negotiating Committee

12 July 2018

Dear Chief Executive,

CHIEF OFFICERS' PAY AGREEMENT 2018-20

Agreement has now been reached on pay awards applicable from **1 April 2018** and **1 April 2019**.

The individual basic salaries¹ of all officers within scope of the JNC for Chief Officers of Local Authorities should be increased by 2.0% with effect from 1 April 2018 and 2.0% with effect from 1 April 2019 (NB: the percentage increases apply to individual salaries as well as pay points if applicable).

The JNC has also agreed to cooperate on a joint survey on the levels of stress, workload pressures and unpaid overtime being experienced by Chief Officers.

This pay agreement covers the period 1 April 2018 to 31 March 2020.

Yours faithfully,

Simon Pannell

Karen Leonard

Joint Secretaries

cc Mike Short, UNISON

¹ Basic salary should exclude other separately identified payments such as Returning Officer fees etc.